



Polisi Preifatrwydd

Cynnwys

- 1/ Gwybodaeth gyffredinol**
- 2/ Pa wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch?**
- 3/ Ar gyfer beth fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud hynny?**
- 4/ Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol ?**
- 5/ Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich manylion personol ?**
- 6/ Eich manylion ar y we**
- 7/ Hawliau unigol**
- 8/ Lle i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau neu i wneud cwyn**
- 9/ Diweddariadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

1/ Gwybodaeth gyffredinol

Mae Mwldan yn fenter gymdeithasol, yn elusen gofrestedig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1024034), ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant.

Ni yw rheolwr data'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni. Mae'r term "rheolydd data" yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r person neu'r endid sy'n rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

Rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Fel rheolydd data, mae'n gyfreithiol-ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion yr ydym yn casglu, cael, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanynt. Mae'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen y wybodaeth hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill y gallwn ei roi i chi ar adegau penodol), fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n defnyddio un o'n gwasanaethau, megis prynu tocynnau (p'un ai ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau sy'n digwydd yn y Mwldan neu aelodaeth, rhoi cyfraniad, defnyddio ein gwefan, creu cyfrif neu danysggrifio i'n rhestrau marchnata e-bost a phost ond y gellir ei gasglu o ffynonellau eraill hefyd, gan gynnwys trydydd partion rydych chi wedi'u hawdurdodi i drosglwyddo'ch gwybodaeth i ni, neu o ddata yn y parth cyhoeddus.

Byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data. Mae hyn yn dweud bod yn rhaid i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdano:

- Gael ei defnyddio yn gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw.

- Cael ei chasglu at ddibenion dilys yn unig a esboniwyd yn glir wrthyh, ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
- Yn berthnasol i'r dibenion y soniwyd wrthyh amdanynt, ac wedi'u cyfyngu i'r dibenion hynny yn unig.
- Yn gywir ac yn cael ei diweddarau.
- Yn cael ei chadw cyhyd ag y bo angen yn unig at y dibenion y soniwyd wrthyh chi amdanynt.
- Yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Mae'r canlynol yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR), a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig, 2003 (PECR).

2/ Pa wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch?

Er mwyn cynnal a rheoli ein busnes, rydym ni'n casglu, cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol a Data Categori Arbennig. Dim ond y lleiafswm angenrheidiol i ddarparu ein gwasanaethau'n effeithiol yr ydym yn ei gasglu, ei brosesu a'i gynnal. Gall hyn ymwneud â gweithwyr, cyflenwyr, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a chwsmeriaid.

Er nad oes rheidrwydd arnoch i ddarparu unrhyw wybodaeth bersonol i ni, efallai na fyddwn yn gallu darparu gwasanaethau i chi mewn rhai achosion oni bai eich bod yn darparu gwybodaeth sylfaenol benodol.

Mae gwybodaeth bersonol yn golygu gwybodaeth sy'n ymwneud â chi, gan gynnwys:

- Eich enw, teitl, rhyw, dyddiad geni.
- Manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, a rhif ffôn.
- Manylion cerdyn talu (sylwer, ni fyddwn yn cadw gwybodaeth am daliadau am fwy o amser nag y mae'n ei gymryd i brosesu eich trafodiad).
- Hanes prynu.

- Cofnodion o roddion a statws Cymorth Rhodd, lle'n berthnasol (fel sy'n ofynnol gan CThEF).
- Lle rydych wedi gadael rhodd i ni yn eich Ewyllys, unrhyw wybodaeth am berthynas agosaf y gallech fod wedi'i rhoi i ni i weinyddu hyn.
- Unrhyw ohebiaeth gennych chi neu a anfonwyd gennym atoch chi.

Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth i'n helpu i wella effeithiolrwydd ein dull cyfathrebu â chi. Mae hyn yn cynnwys olrhain a yw'r negeseuon e-bost a anfonwn yn cael eu hagor a pha ddolenni sy'n cael eu hagor o fewn neges, ac olrhain unrhyw ryngweithio â'n gwefan a/neu hysbysebion cyfryngau cymdeithasol (trwy gwcis).

Efallai y byddwn yn casglu Data Categori Arbennig er mwyn deall aelodau ein cynulleidfa, cyfranogwyr a chefnogwyr yn well. Mae hyn er mwyn helpu i nodi ffyrdd o wella ein dulliau cyfathrebu a chynnal ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym ni'n defnyddio'r term uchod i olygu gwybodaeth am eich hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol, iechyd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Diogelwch eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn cymryd pob gofal i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.

Rydym wedi rhoi mesurau diogelu priodol ar waith (o ran ein gweithdrefnau a'r dechnoleg a ddefnyddiwn) i gadw eich gwybodaeth bersonol mor ddiogel â phosibl.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw drydydd partïon a ddefnyddiwn i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn gwneud yr un fath.

Nid ydym yn trosglwyddo dim o'ch data personol y tu allan i'r UE fel mater o drefn. Bydd unrhyw drosglwyddiadau sy'n digwydd yn cael eu gwneud yn unol â'r GDPR.

3/ Ar gyfer beth fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud hynny?

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi at ddibenion gwahanol, sydd wedi'u rhestru isod. O dan y gyfraith diogelu data, rhaid bod gennym sail gyfreithiol ddilys ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth bersonol – rydym wedi rhestru'r seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt isod hefyd. Gall hyn ymwneud â gweithwyr, cyflenwyr, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a chwsmeriaid.

3.1 Contract

Un o'r achlysuron mwyaf cyffredin pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yw pan fydd angen gwneud hynny i gyflawni contract. Os byddwch chi'n prynu tocynnau drwy ein system Swyddfa Docynnau, er enghraifft, byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol gan gynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a manylion cerdyn credyd/debyd. Er mwyn cyflawni ein contract, efallai y byddwn yn anfon cadarnhad o'ch archeb a gwybodaeth cyn y sioe atoch hefyd drwy e-bost neu drwy'r post, neu'n eich ffonio am eich archeb o bosibl.

Er mwyn prosesu trafodiad, gellir trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol gan gynnwys manylion cerdyn i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n gweithredu fel Proseswyr Data gyda'n cyfarwyddyd ni.

Hefyd, efallai y byddwn ni'n casglu gwybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi am bobl eraill os byddwch chi'n eu cofrestru nhw i fynychu digwyddiad.

Cofiwch roi gwybod i'r unigolyn/unigolion eraill a'u hysbysu am yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

3.2 Cydsyniad

Gallwch ddewis derbyn negeseuon marchnata uniongyrchol penodol gennym

ni. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cysylltu â chi gyda cheisiadau am gymorth ariannol neu fathau eraill o gymorth i'n helpu i gyflawni ein nod.

Hefyd, gallwch gydsynio i gwmnïau gwadd penodol eraill gysylltu'n uniongyrchol â chi. Pan fyddwch chi'n cydsynio i hyn, rydych yn cytuno i rannu'ch gwybodaeth bersonol â rheolwr data trydydd parti (gweler Adran 5 isod).

Gallwch dynnu caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy fewngofnodi i'ch Cyfrif Cwsmer a diweddaru'ch Dewisiadau Data, clicio dad-danysgrifio ar y neges e-bost marchnata uniongyrchol neu drwy gysylltu â ni ar lafar neu'n ysgrifenedig trwy boxoffice@mwldan.co.uk

3.3 Buddiant Cyfreithlon

Mae buddiannau cyfreithlon yn golygu ein bod ni'n gallu prosesu eich gwybodaeth bersonol os oes gennym reswm dilys a chyfreithlon dros wneud hynny, ac nad ydym yn niweidio unrhyw un o'ch hawliau a'ch buddiannau.

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu, pan fyddwch chi'n darparu gwybodaeth bersonol, oni nodir fel arall, y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon er ein buddiannau cyfreithlon i gyflawni ein busnes o redeg sefydliad theatr a chelfyddydau.

Cyn gwneud hyn, fodd bynnag, byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus ac yn cydbwysu unrhyw effaith bosibl arnoch chi a'ch hawliau.

Dyma'r hyn rydym yn ei ystyried yn 'Fuddiannau Cyfreithlon' craidd, gyda rhai enghreifftiau o'r mathau o brosesau y gallem eu defnyddio i'w cyflawni.

- **Marchnata Uniongyrchol electronig:** Efallai y byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am ddigwyddiadau, gweithgareddau a chynlluniau aelodaeth/teyrngarwch drwy e-bost neu wasanaethau negesydd electronig y credwn sydd o ddiddordeb i chi.
- **Marchnata Uniongyrchol drwy'r post:** Efallai y byddwn yn anfon marchnata post atoch gyda gwybodaeth am ddigwyddiadau,

gweithgareddau a chynlluniau aelodaeth/teyrngarwch a allai fod o ddiddordeb i chi.

- **Hyrwyddiadau:** gweinyddu gweithgareddau hyrwyddo gan gynnwys cystadlaethau.
- **Proffilio:** Gallem ddefnyddio dulliau proffilio a sgrinio i nodi darpar gwsmeriaid a chefnogwyr newydd, cynhyrchu negeseuon mwy perthnasol, targedu hysbysebu digidol, a darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid a'n cefnogwyr. Gall prosesu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer proffilio ein helpu i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol trwy gael dealltwriaeth o gefndir ein cwsmeriaid a'n cefnogwyr, gan ein helpu i feithrin perthynas sy'n briodol i'ch diddordebau a'ch gallu i ymgysylltu a/neu gyfrannu.

Efallai y byddwn yn defnyddio proseswyr data trydydd parti i wneud hyn. Hefyd, efallai y byddwn yn defnyddio ffynonellau data ychwanegol i gynyddu a gwella'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi.

Gall hyn gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) gael manylion am newidiad cyfeiriad, dyddiad geni, rhifau ffôn a manylion cyswllt eraill, gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch cyfoeth, a data demograffig a gynhyrchir trwy offer geodemograffig fel Audience Finder, canlyniadau arolwg a data seicograffig. Gall gynnwys gwybodaeth o gofrestrau cyhoeddus a ffynonellau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd hefyd fel Tŷ'r Cwmnïau, papurau newydd a chylchgronau.

- **Eich Budd Pennaf:** Prosesu eich gwybodaeth bersonol i'ch diogelu rhag twyll wrth wneud trafodion ar ein gwefan, a sicrhau bod ein gwefannau a'n systemau'n ddiogel.
- **Personoli:** Lle mae'r prosesu'n ein galluogi i wella, addasu, personoli neu wella ein gwasanaethau/cyfathrebiadau fel arall er budd cwsmeriaid neu gefnogwyr presennol, cyn-gefnogwyr neu ddarpar gefnogwyr.
- **Dadansoddeg:** Prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion dadansoddi cwsmeriaid, asesu, proffilio a segmentu a marchnata uniongyrchol (gan gynnwys hysbysebion arddangos digidol wedi'u targedu), ar sail bersonol neu gyfunol, i'n helpu gyda'n gweithgareddau ac i roi'r wybodaeth fwyaf perthnasol i chi.
- **Ymchwil:** I bennu effeithiolrwydd ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu a datblygu ein cynnyrch, gwasanaethau, systemau a'n perthynas gyda chi.

- **Dogfennaeth:** Efallai y byddwn yn defnyddio ffotograffau, ffilm/fideograffeg, recordiadau sain, dyfyniadau, adborth ac ymatebion i'r arolwg i ddogfennu ein gweithgareddau at ddibenion hyrwyddo ac ar gyfer swyddogaethau newyddiadurol, academiaidd, artistig a llenyddol. Gweinyddu eich Cyfrif Cwsmer, er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn gyfredol – efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ddiweddaru ein cofnodion. Hefyd, bydd angen i ni anfon ein diweddariadau gwefan, hysbysiadau a chyhoeddiadau gwasanaeth atoch o bryd i'w gilydd; at ddibenion Adnoddau Dynol, megis casglu a storio CVs a cheisiadau; lechyd a Diogelwch, fel cofnodi damweiniau.
- **Gofal Cwsmeriaid** – ymateb i adborth cwsmeriaid.
- **Diogelu Data:** Byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch hefyd fel y gallwn gydnabod eich perthynas â ni a pharchu eich dewisiadau cysylltu â ni.

Pan fyddwn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol er ein buddiant dilys, byddwn yn ystyried ac yn cydbwysu unrhyw effaith bosibl arnoch chi a'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Nid yw ein buddiannau busnes dilys yn cael blaenoriaeth awtomatig dros eich buddiannau chi – ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer gweithgareddau lle mae'r effaith arnoch chi'n cael blaenoriaeth dros ein buddiannau ni (oni bai bod eich caniatâd gennym neu os yw hynny'n ofynnol neu'n cael ei ganiatáu fel arall gan y gyfraith). Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau yn Adran 7.

3.4 Rhwymedigaeth Gyfreithiol

Mae'r Mwldan yn cadw cofnodion o'i holl drafodion ariannol gyda chi er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol i gadw cofnodion cyfrifo digonol. Efallai y byddwn yn defnyddio (ac yn datgelu) y wybodaeth sydd ganddi amdanoch i gydymffurfio ag unrhyw alw ymchwilol, gorchymyn llys, neu gais am gydweithrediad gan asiantaeth gorfodi'r gyfraith neu asiantaeth arall y llywodraeth.

Mae hefyd yn gyfreithiol-ofynnol i ni gynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar unigolion sy'n rhoi rhoddion mawr i ni, er mwyn cydymffurfio â'n

dyletswyddau mewn perthynas â deddfwriaeth gwrth-wyngalchu arian ac atal twyll.

Os hoffech wrthwynebu prosesu gwybodaeth bersonol yn unrhyw un o'r ffyrdd a restrir uchod neu os oes gennych gwestiynau am hyn, cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad yn Adran 7.

4/Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol ?

Er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ar breifatrwydd a diogelu data, dim ond cyhyd ag y bydd ei hangen arnom ar gyfer y dibenion gwreiddiol rydym yn cadw'ch gwybodaeth.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer gwybodaeth bersonol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y wybodaeth bersonol, y risg bosibl o niwed o ddefnyddio neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol heb awdurdod, at ba ddibenion rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Ar ôl cyrraedd y cyfnod cadw, efallai y byddwn yn adolygu a oes angen i ni ei chadw o hyd neu ei ddiweddarau. Pan fyddwn o'r farn nad oes angen y wybodaeth bersonol mwyach at unrhyw ddiben, caiff ei dileu'n ddiogel.

Os ydych chi'n gofyn am beidio derbyn unrhyw gyswllt pellach gennym ni, efallai y byddwn yn cadw rhywfaint o wybodaeth sylfaenol fel y gallwn gadarnhau bod y berthynas wedi bodoli - a'i bod wedi dod i ben - yn ogystal â rhai manylion. Mae hyn er mwyn osgoi anfon deunyddiau diangen atoch yn y dyfodol. Yna gellir dileu'r wybodaeth hon yn unol â'r hysbysiad cadw priodol.

5/ Gyda phwy ydym ni'n rhannu eich manylion personol ?

Ni fyddwn byth yn gwerthu nac yn rhentu'ch gwybodaeth bersonol i sefydliadau eraill.

Er mwyn darparu ein gwasanaethau, rydym yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti dethol i brosesu data ar ein rhan ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ni. Mae hyn er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol a diogelu eich preifatrwydd yn cael ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol. Yn yr achosion hyn rydym yn mynnu bod y trydydd partion hyn yn cydymffurfio'n llwyr â'n cyfarwyddiadau ni a'r deddfau diogelu data.

Mae deddfwriaeth preifatrwydd yn caniatáu trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r UE, yn amodol ar rai amodau.

Amgylchiadau lle gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti:

- Lle mae gennym eich caniatâd i wneud hynny.
- Rydych wedi cydsynio'n benodol i rannu'ch gwybodaeth bersonol â chwmnïau gwadd penodol y gwelsoch eu perfformiadau.
- Rydych wedi cydsynio'n benodol i rannu eich gwybodaeth bersonol gyda hyrwyddwyr, sefydliadau neu leoliadau penodol y gwelsoch eu perfformiadau.
- Pan fyddwn ni'n defnyddio cwmnïau eraill i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan, e.e. prosesu, postio neu ddosbarthu archebion, ateb cwestiynau cwsmeriaid am gynhyrchion neu wasanaethau, anfon post a negeseuon e-bost, dadansoddi, asesu a phroffilio cwsmeriaid, hysbysebion digidol wedi'u targedu, ac wrth ddefnyddio archwilwyr/ymgynghorwyr neu brosesu taliadau cerdyn credyd/debyd.
- Pan fydd y data'n ddienw, ac yn cael ei gyflwyno i gefnogi gwaith meincnodi ac ymchwil y diwydiant fel y gwaith a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Os byddwn ni'n uno â sefydliad arall i ffurfio endid newydd, gellir trosglwyddo gwybodaeth i'r endid newydd.
- Mae hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu os bydd yr heddlu neu awdurdod rheoleiddio neu lywodraeth yn ymchwilio i weithgareddau a allai fod yn anghyfreithlon. Efallai hefyd y byddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol i

drydydd partïon priodol i helpu gyda gwiriadau ac ymchwiliadau gwrth-dwyll ac at ddibenion trethu.

- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac wedi tanysgrifio neu ymrwymo i gontractau gyda'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti.

6/ Eich manylion ar y we

Mae'r adran hon yn amlinellu sut rydym ni'n defnyddio eich manylion chi ar y we.

6.1 Hysbysiad Cwcis

Darnau bach o wybodaeth yw cwcis sy'n cael eu storio gan eich porwr ar yriant caled eich cyfrifiadur neu ffôn symudol pan fyddwch chi'n pori gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth am gwcis, ewch i: allaboutcookies.org

Mae cwcis yn ein helpu trwy:

- Gwneud i'n gwefan weithio fel y byddech chi'n ei ddisgwyl.
- Cofio eich gosodiadau yn ystod a rhwng ymweliadau.
- Gwella cyflymder/diogelwch y wefan.
- Caniatáu i chi rannu tudalennau gyda rhwydweithiau cymdeithasol fel Facebook.
- Gwella ein gwefan yn barhaus i chi.
- Helpu i wneud ein gwaith marchnata yn fwy effeithlon (yn y pen draw ein helpu i gynnig y gwasanaeth a wnawn am y pris a wnawn).
- Rhoi caniatâd i ni ddefnyddio cwcis.

Os yw'r gosodiadau ar eich porwr rydych chi'n eu defnyddio i edrych ar y wefan hon wedi'u haddasu i dderbyn cwcis, rydyn ni'n cymryd bod hyn, a'ch defnydd parhaus o'n gwefan, yn golygu eich bod chi'n hapus gyda hyn. Efallai y byddwch am dynnu cwcis neu beidio â defnyddio cwcis o'n gwefan, ond bydd hynny'n golygu na fydd ein gwefan yn gweithio fel y byddech chi'n ei ddisgwyl.

Pa Mor Hir Mae Cwcis yn Para?

Pan fydd gweinydd gwe yn anfon cwci, mae'n gofyn i'ch porwr gadw'r cwci hwnnw tan ddyddiad ac amser penodol. Gallai'r dyddiadau hyn fod fel a ganlyn:

Rhyw ddyddiad yn y dyfodol – a allai fod ychydig funudau neu ychydig oriau o'r adeg hon (i olrhain rhywbeth fel eich basged siopa mewn siop ar-lein). Efallai y bydd y cwci'n dod i ben flynyddoedd lawer yn y dyfodol, i gadw golwg ar eich porwr am amser hir.

Pan fyddwch chi'n cau eich porwr – cwci sesiwn yw hwn, a'r tro nesaf fyddwch chi'n dechrau ar eich porwr bydd y rhain wedi diflannu.

Rhyw ddyddiad yn y gorffennol – dyma sut mae'r gweinydd yn gofyn i borwr dynnu cwci sydd wedi'i storio o'r blaen.

Pa Gwcis Rydym Ni'n eu Defnyddio

Ein cwcis ni:

Rydym yn defnyddio cwcis i wneud i'n gwefan weithio, gan gynnwys:

Cofio os ydych chi wedi cydsynio i ddefnyddio cwcis.

Swyddogaethau trydydd parti:

Mae ein gwefan, fel y rhan fwyaf o wefannau, yn cynnwys swyddogaethau a ddarperir gan drydydd partiön.

Darparu ein gwasanaeth tocynnau ar-lein:

Rydym ni'n defnyddio trydydd parti i brosesu ein cofrestrïadau postio, tocynnau

ar-lein a swyddogaethau rhoddion. Mae'r trydydd parti yn defnyddio cwcis i reoli'r basgedi siopa ar ein tudalennau tocynnau, yn ogystal â mewngofnodi a defnyddio eich tudalennau cyfrif. Cwcis dros dro yw'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y swyddogaethau hyn, ac maen nhw'n cael eu dileu unwaith y bydd y trafodiad wedi'i gwblhau neu pan fyddwch chi'n allgofnodi.

Does dim modd prynu unrhyw beth ar ein gwefan heb dderbyn y cwcis hyn.

Swyddogaeth ychwanegol:

Mae ein gwefan yn cynnwys y swyddogaethau trydydd parti canlynol sy'n defnyddio cwcis:

Youtube– gwasanaeth ffrydio fideo wedi'i fewnosod

Bydd y goblygiadau preifatrwydd ar hyn yn amrywio o'r naill rwydwaith cymdeithasol i'r llall a byddant yn dibynnu ar y gosodiadau preifatrwydd rydych chi wedi'u dewis ar y rhwydweithiau hyn.

Bydd analluogi'r cwcis hyn yn debygol o dorri'r swyddogaethau a gynigir gan y trydydd partïon hyn.

Cwcis ystadegau ymwelwyr anhysbys

Rydym yn defnyddio cwcis i lunio ystadegau ymwelwyr fel faint o bobl sydd wedi ymweld â'n gwefan, pa fath o dechnoleg maen nhw'n ei defnyddio, pa mor hir dreulion nhw ar y wefan, pa dudalen maen nhw'n edrych arni, ac ati. Mae hyn yn ein helpu i wella ein gwefan yn barhaus. Mae'r rhaglenni dadansoddeg hyn yn dweud wrthym hefyd, yn ddienw, sut y daeth pobl i'r wefan hon (e.e. o beiriant chwilio) ac a ydyn nhw wedi ymweld â'r wefan o'r blaen, gan ein helpu i ddatblygu ein gwasanaethau i chi.

Cwcis sy'n cael eu defnyddio gan Instagram a Facebook, gan gynnwys cwcis hysbysebu neu dargedu:

Mae'r cwcis hyn yn darparu gwybodaeth am ymwelwyr i Instagram a Facebook, gan wirio a yw defnyddwyr wedi mewngofnodi i'r naill blatfform neu'r llall ac yn

gosod cwcis ar gyfer Instagram a Facebook.

Gan amlaf, defnyddir y cwcis hyn i ddarparu hysbysebion sy'n fwy perthnasol i chi a'ch diddordebau. Fe'u defnyddir hefyd i gyfyngu ar faint o weithiau fyddwch chi'n gweld hysbyseb ac i helpu i fesur effeithiolrwydd yr ymgyrch hysbysebu. Fe'u gosodir fel arfer gan rwydweithiau hysbysebu gyda'n caniatâd ni. Maen nhw'n cofio eich bod wedi ymweld â gwefan ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â sefydliadau eraill fel hysbysebwyd. Yn aml, bydd cwcis targedu neu hysbysebu yn gysylltiedig â gweithrediad y safle a ddarperir gan y sefydliad arall.

Rydym yn defnyddio cwcis 'Hysbysebu' ar wefan y Mwldan er mwyn:

- Cysylltu â rhwydweithiau cymdeithasol, fel Facebook, a all ddefnyddio gwybodaeth i ddarparu hysbysebion wedi'u targedu i chi ar wefannau eraill.
- Nodi eich bod wedi ymweld â gwefan Canolfan y Celfyddydau Taliesin, i ddangos hysbysebion perthnasol gennym ni.
- Rhoi gwybodaeth am eich ymweliad i rwydweithiau hysbysebu fel y gallant gyflwyno hysbysebion a allai fod o ddiddordeb i chi.

Diffodd Cwcis

Mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe (Firefox, Internet Explorer, Google Chrome, Opera, Safari ac ati) yn caniatáu i chi rwystro / dileu cwcis o'ch dyfais trwy osodiadau eich porwr. Dylech droi i adran 'Help' eich porwr neu fwrw golwg ar wefan allaboutcookies.org sy'n cynnig arweiniad i bob porwr modern.

I ddewis peidio â chael eich tracio gan Google Analytics ar draws pob gwefan, ewch i <https://tools.google.com/dlpage/gaoptout>.

7/ Hawliau Unigol

1. **Hawl at Fynediad:** Gall unigolion ofyn am wybodaeth am eu data personol a sut mae'n cael ei brosesu (a elwir yn gyffredin fel "gais am fynediad at ddata gan bwnc"). Mae gennym rwymedigaeth i roi gwybodaeth i chi

ynghylch sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ein cyfnodau cadw, a gyda phwy y caiff ei rhannu. Gelwir hyn yn "Gwybodaeth Preifatrwydd". Y polisi preifatrwydd hwn yw ein prif ddull o roi'r wybodaeth breifatrwydd hon i chi ond efallai y byddwn yn gwneud hynny gan ddefnyddio technegau eraill.

2. **Yr Hawl i Gywiro:** Gall unigolion ofyn am gywiriadau i ddata personol anghywir neu anghyflawn. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch wedi'i chywiro.
3. **Yr Hawl i Ddileu:** Gall unigolion ofyn am ddileu data personol pan nad yw'r wybodaeth bellach yn angenrheidiol at y dibenion y cafodd ei gasglu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich gwybodaeth bersonol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
4. **Yr Hawl i Gyfyngu ar Brosesu:** Gall unigolion ofyn am gyfyngiadau ar brosesu eu data personol mewn rhai amgylchiadau.
5. **Yr Hawl i Gludadwyedd Data:** Gall unigolion ofyn am eu data mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn aml, i'w drosglwyddo i wasanaeth arall.
6. **Yr Hawl i Wrthwynebu:** Gall unigolion wrthwynebu prosesu yn seiliedig ar fuddiannau dilys neu farchnata uniongyrchol. Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol benodol gyda'ch cydsyniad chi, ac mae gennych hawl i dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau eraill o dan y GDPR.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i adran Marchnata y Mwldan:

Theatr Mwldan
Bath House Road
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1JT

Ebost: marketing@mwldan.co.uk

8/ Lle i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau neu i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu, yn y lle cyntaf, â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol drwy'r manylion cyswllt uchod. Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF

www.ico.org.uk

9/ Diweddariadau i'r polisi preifatrwydd hwn

Rydym ni'n adolygu'r ffyrdd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn newid pa fath o wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei storio, gyda phwy rydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arni.

O ganlyniad, bydd angen i ni newid yr hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i'w gadw'n gywir ac yn gyfredol.

Byddwn yn adolygu'r hysbysiad hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn cael ei ddiweddarau.

Cafodd yr hysbysiad hwn ei ddiweddarau ddiwethaf ar XX 2026

